Y Pwyllgor ar y Gorchymyn Arfaethedig ynghylch Gofal Cartref

Proposed Domiciliary Care LCO Committee

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff CF99 1NA

14 December 2007

Annwyl Gyfaill

Ymgynghoriad – Pwyllgor ar y Gorchymyn Arfaethedig ynghylch Gofal Cartref – *Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Rhif 4) 2008* **mewn perthynas â chodi tâl am Ofal Cymdeithasol dibreswyl (Gofal Cartref)**

Sefydlwyd y Pwyllgor ar y Gorchymyn arfaethedig ynghylch Gofal Cartref ar 5 Rhagfyr 2007 i ystyried a chyflwyno adroddiad ar y *Gorchymyn arfaethedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwyster Deddfwriaethol) (Rhif 4) 2008* mewn perthynas â chodi tâl am Ofal Cymdeithasol Dibreswyl (y 'Gorchymyn arfaethedig). Yn ei gyfarfod ar 13 Rhagfyr 2007 cytunodd y Pwyllgor ar y cylch gorchwyl canlynol -

I ystyried:

- Egwyddorion cyffredinol y Gorchymyn arfaethedig ac a ddylai cymhwysedd deddfwriaethol yn y maes a ddynodwyd ym *'Mater 15.9'* gael ei roi i'r Cynulliad; a

- Amodau'r Gorchymyn arfaethedig, ac yn benodol a ydynt wedi'u diffinio'n rhy eang neu'n rhy gyfyng.

Ysgrifennaf i'ch gwahodd i gyflwyno tystiolaeth i'r Pwyllgor fel cefndir i'w waith. Wrth gyflwyno eich adroddiad fe fyddai'n fuddiol pe gallech roi sylw i'r canlynol:

1. Beth yw eich barn am yr egwyddor cyffredinol bod cymhwysedd deddfwriaethol yn y maes a ddynodwyd ym Mater 15.9 yn cael ei drosglwyddo i'r Cynulliad?

2. Beth yw eich barn am amodau'r Gorchymyn arfaethedig e.e a ydynt wedi'u llunio'n rhy eang neu'n rhy gyfyngedig?

3. A ydych chi'n ystyried bod y materion a eithriwyd yn atal effeithiolrwydd unrhyw Fesurau arfaethedig yn y dyfodol a fyddai'n cael eu dwyn ymlaen o dan Fater 15.9? Os ydych, esboniwch pam os gwelwch yn dda.

Prif ddiben y Pwyllgor yw ystyried a ddylai'r Cynulliad fod â grym, o ran egwyddor, i ddeddfu trwy Fesur yn y maes a ddynodwyd yn y Gorchymyn arfaethedig, h.y codi tâl am ofal cymdeithasol dibreswyl. Fodd bynnag, nid ydyw o fewn cyfrifoldeb y Pwyllgor i ystyried y modd penodol y dylid arfer y grym, pe byddai'n cael ei drosglwyddo. Bydd manylion unrhyw Fesurau

Tel: 029 2089 8025 GTN: 1208
Llinell Union / Direct Line: 029 2089 8025
Ffacs / Fax: 029 2089 8021
Minicom: 029 20823280
E-bost / E-mail: legislationoffice@wales.gsi.gov.uk

yn y dyfodol a gaiff eu dwyn ymlaen o ganlyniad i roi cymhwysedd deddfwriaethol yn y maes hwn yn fater ar gyfer craffu arno gan y Cynulliad maes o law.

Mae copi o'r Gorchymyn arfaethedig a'r Memorandwm Esboniadol sy'n mynd gydag ef yn amgaeedig yn **Atodiad 1**. Gellir gweld fersiwn electronaidd o'r dogfennau hyn ynghyd â gwybodaeth ar y broses ddeddfwriaethol a manylion am y Pwyllgor yn http://www.assemblywales.org/bus-home/buslegislation.htm

Fel y nodwyd yn y Memorandwm Esboniadol, mae'r diffiniad o ofal cymdeithasol (a lles)sydd i'w ddefnyddio ym Maes 15 wedi'i nodi yn y Gorchymyn arfaethedig mewn perthynas â Phlant sy'n Agored i Niwed a Thlodi mewn Plant (*Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Rhif 3) 2007*) sydd hefyd yn ceisio gosod materion yn y Maes hwn. Mae rhai o'r materion a eithriwyd, a gynhwysir yn y Gorchymyn arfaethedig mewn perthynas â Phlant sy'n Agored i Niwed a Thlodi Plant hefyd yn gymwys i'r Gorchymyn arfaethedig mewn perthynas â chodi tâl am Ofal Cymdeithasol Dibreswyl. Mae'r darn perthnasol o'r Gorchymyn arfaethedig mewn perthynas â Phlant sy'n Agored i Niwed a Thlodi mewn Plant yn amgaeedig yn **Atodiad 2**.

Os ydych yn dymuno cyflwyno tystiolaeth anfonwch gopi electronig o'ch cyflwyniad at swyddfaddeddfwriaeth@wales.gsi.gov.uk a rhoi'r teitl *Ymgynghoriad Gofal Cartref LCO*. Pe byddai'n well gennych anfon eich cyflwyniad fel copi caled, anfonwch ef at Ruth Hatton, Dirprwy Glerc Pwyllgor, y Swyddfa Ddeddfwriaeth, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd CF99 1NA.

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn cyflwyniadau yw dydd Gwener 25 Ionawr 2007. Ni fydd yn bosibl ystyried ymatebion a dderbynnir ar ôl y dyddiad hwn.

Wrth baratoi eich cyflwyniad cofiwch hyn os gwelwch yn dda:

- Dylai eich ymateb fod mor gryno ag sy'n bosibl. Rhowch gyfeirnod ar eich ymateb gan ddefnyddio'r teitl a nodwyd uchod.
- Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn arferol yn sicrhau bod ymatebion i ymgynghoriadau cyhoeddus ar gael i gael eu craffu gan y cyhoedd, a gallant hefyd gael eu gweld a'u trafod mewn cyfarfodydd Pwyllgor. **Os nad ydych am i'ch ymateb neu'ch enw gael ei gyhoeddi mae'n bwysig eich bod yn pwysleisio hyn ar ddiwedd eich cyflwyniad.**
- Nodwch a ydych yn ymateb ar ran sefydliad neu fel unigolyn, os gwelwch yn dda.
- Nodwch os gwelwch yn dda a fyddech yn barod i roi tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau cysylltwch â'r Clerc, Liz Wilkinson (ffôn: 029 2089 8025) neu Ruth Hatton, y Dirprwy Glerc (ffôn 029 2089 8019).

Joyce Watson

Joyce Watson AC
Cadeirydd y Pwyllgor

Tel: 029 2089 8025 GTN: 1208
Llinell Union / Direct Line: 029 2089 8025
Ffacs / Fax: 029 2089 8021
Minicom: 029 20823280
E-bost / E-mail: legislationoffice@wales.gsi.gov.uk